

Adeiladu Tŷ Gobaith

Gweithred ymgyrchu eglwysi Wythnos Cymorth Cristnogol

Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Gellid cyflawni'r weithred hon gan unrhyw grŵp o bobl cyn neu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Rydym yn argymhell eich bod yn ei ddefnyddio yn ystod eich gwasanaeth ar Sul Wythnos Cymorth Cristnogol (13 Mai 2018) fel ymateb ar y cyd. Bydd yn cymryd rhyw 8-12 munud i'w gwblhau, yn cynnwys emyn.

Rhowch 'fricsen gobaith' papur a phensil i bob person, unai wrth iddynt gerdded i mewn i'r oedfa neu ar bob sedd. Mae'r sesiwn yn cynnwys gweddi fer. Darllenwch y weddi yn gyhoeddus, tafluniwch hi ar sgrin neu argraffwch hi yn eich taflen newyddion.

Gwahoddwch bawb i arwyddo deiseb yr ymgyrch ar y diwedd.



Bricsen wrth fricsen ...

Dilynwch y camau syml hyn er mwyn paratoi adeiladu eich Tŷ Gobaith.

- Darluniwch siâp tŷ gyda thâp ar fwrdd neu fur yn nhu blaen eich eglwys
- Llungopiwch dempled y fricsen a sicrhewch fod gennych ddigon o bensiliau fel bod pawb yn gallu ysgrifennu neges
- Rhowch dâp neu liw i bobl ludo eu bricsen yn y tŷ.



Collodd Marcelin a'i dair merch a'u cartref yn Haiti.

1. Myfyrio

Darllenwch y sgript hon i'ch eglwys neu grŵp

Heddiw rydym yn ymuno gyda miloedd o rai eraill er mwyn cefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol. Fel dilynwyr Iesu, cawn ein galw i gamu allan mewn cenhadaeth a gweddi dros bobl dlotaf ein byd. Eleni, rydym yn cerdded mewn undod gyda'n cymdogion byd-eang sydd wedi eu gorfodi o'u cartrefi.

Ein cymdogion fel Marcelin. Collodd ei gartref yn 2016 pan ysgubodd Corwynt Mathew trwy Haiti. Mae Marcelin a'i dair merch bellach yn byw mewn bloc concriid 2x2m, a arferai fod yn gawod gymunedol. Nid oes ffenestri iddo, a'r unig ddodrefn yw gwely sengl. Gofod bychan, clawstroffobiaidd ydyw, ac mae'r gwres yn llethol.

Mae Marcelin yn gweithio'n galed i fagu ei dair merch ar ei ben ei hun, yn coginio, glanhau a gofalu

amdanynt. Bellach ni all fforddio anfon y tair ohonynt i'r ysgol ac weithiau mae'n ymdrech i sicrhau fod digon o fwyd ganddynt. Weithiau maent yn llwglyd.

Mae'r tad hwn sy'n gweithio mor galed yn poeni am ei ferched yn barhaus. Mae'n bryderus y caiff ei ferched llwglyd eu hecsbloetio gan ddynion trahaus er mwyn cael bwyd. Ac mae ei ferched yn pryderu y bydd eu tad yn mynd yn sâl oherwydd ei fod ef hefyd yn llwglyd.

Mae Marcelin yn galw ar i Dduw roi ffydd a nerth iddo allu gofalu am ei blant. Ond er ei fod yn gryf, ni all gymryd llawer mwy. Pan ofynnwyd iddo beth fyddai'n digwydd petai daearyn arall yn taro, atebodd, 'Byddem yn marw.'

Mae Marcelin yn byw yn agos at ei hen gartref. Fel Marcelin, mae miliynau o bobl sydd wedi colli

Parhau dros y dudalen

wythnos
cymorth
cristnogol
13-19 MAI



eu cartref yn parhau i fod yn eu gwlad eu hunain. Yn chwilio am ddiogelwch ond yn anfodlon neu'n analluog i groesi ffin, maent gan amlaf yn cael eu hanwybyddu gan y gymuned ryngwladol ac ni chant y diogelwch swyddogol a roir i ffoaduriaid.

Petai ni'n gwybod eu henwau i gyd, byddai'n cymryd ymhell dros flwyddyn i'w darllen allan - hyd yn oed heb gysgu. Mae nifer o resymau dros eu dadleoliad: anghydfod, llifogydd, sychder, ofn. Y tlotaf sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Mae dadleoliad yn cynyddu'r siawns o golli swyddi ac addysg, ac maent mewn mwy o berygl o wynebu trais.

Mae'r Cenhedloedd Unedig a'r gwladwriaethau sy'n perthyn iddo yn paratoi dau gytundeb newydd ar ffoaduriaid a mudo, ond ni wnaiff yr un ohonynt helpu pobl sydd wedi eu dadleoli yn eu gwlad eu hunain. Gall y byd wneud yn well na hyn. Yn wir, rhaid iddo. Dylai pob person sy'n gorfod

symud cael ei warchod rhag niwed a chael y cyfle i ailadeiladu ei fywyd, ac nid jest gallu goroesi.

Gallwn ddod a gobaith i'n chwiorydd a'n brodyr. Gwahoddaf chi'n awr i gymryd eich 'bricsen gobaith' (daliwch eich templed i fyny) ac ysgrifennwch air, neges fer neu weddi dros y bobl sydd wedi eu gorfodi o'u cartrefi. Bydd y briciau hyn yn adeiladu Tŷ Gobaith; gweithred mewn undod gyda'r bobl sydd wedi eu dadleoli o amgylch y byd. (Pawb i ysgrifennu ar eu bricsen.)

Ar ôl y gwasanaeth, os gwelwch yn dda llofnodwch ein deiseb i Lywodraeth Prydain. Rydym yn gofyn iddynt gefnogi diogelwch gwell i bawb sy'n gorfod symud. Caiff y Tŷ Gobaith yr ydym yn ei adeiladu heddiw, ynghyd a'r ddeiseb, ei gyflwyno i'r llywodraeth, i sicrhau nad yw'r un yn cael ei adael ar ôl.

2. Adeiladu Tŷ Gobaith

Canwch emyn addas a gofynnwch i bob person osod eu bricsen ac adeiladwch dŷ gyda'ch gilydd.

3. Gweddi

Gorffennwch trwy weddio'r weddi hon:

Rho i ni, Arglwydd Dduw,

weledigaeth o'r Deyrnas y mae dy gariad yn ei ddymuno:

byd lle mae'r gwan yn cael eu gwarchod, ac nad aiff neb yn llwglyd,

byd lle mae bywyd yn cael ei rannu, a'i fwynhau gan bawb,

byd lle mae pob hil, cenedl a diwylliant yn byw mewn goddefgarwch a pharch,

byd lle mae heddwch yn cael ei adeiladu gyda chyfiawnder, ac y mae cyfiawnder yn cael ei arwain gan gariad.

Rho inni'r ysbrydoliaeth a'r dewrder i adeiladu dy Deyrnas yma ac yn awr.

Amen.

4. Mae gennych lais – sicrhewch y caiff ei glywed

→ Tynnwch lun o'ch Tŷ Gobaith a rhanwch ef ar y cyfryngau cymdeithasol. Defnyddiwch yr hashnod #WythnosCC Byddwn yn defnyddio eich lluniau i ddangos undod gyda phobl sydd wedi eu dadleoli ac i alw ar ein llywodraeth i warchod hawliau pobl sy'n gorfod symud.

→ Gofynnwch i'ch cymuned arwyddo'r ddeiseb i Lywodraeth Prydain. Sicrhewch fod gennych ddigon o gopiau i bawb ei harwyddo. Gellid arwyddo'r ddeiseb ar lein.hefyd.org/petition

→ Anfonwch eich briciau a'ch deisebau i Cymorth Cristnogol, Llys Porth yr Eglwys, 3 Ffordd yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF14 2DX. Caiff eich briciau a'ch deisebau eu cyflwyno i'r Prif Weinidog cyn Cyfarfod Cyffredinol y CU ym mis Medi.

Brif Weinidog, Wnewch chi helpu i adeiladu gobaiith?

Annwyl Brif Weinidog,

Mae trais, tlodi a thrychineb yn gorfodi mwy o bobl o'u cartrefi - ac mae newid hinsawdd ac anghyffwrdd dwys yn golygu y bydd dadleoli'n gwaethygu. Ni fydd y mwyafrif llethol o bobl sy'n cael eu gorfodi i adael cartref byth yn croesi ffin, ac eto mae eu lleisiau yn cael eu hanwybyddu ac ni chant bron ddim cefnogaeth gan y gymuned ryngwladol.

Mae dros 40 miliwn o bobl sydd wedi eu dadleoli'n fewnol yn galw am bencampwyr gwleidyddol ar yr haen uchaf oherwydd mae trafodaethau presennol y Cenhedloedd Unedig ar bobl sy'n symud wedi eu hanwybyddu'n llwyr. Nid yw'r un o'r ddau Gyfundeb gan y CU yn mynd i'r afael a dadleoliad mewanol. Felly, rydym eich annog i anrhydeddu ymrwymiad y DU na fydd neb yn cael ei adael ar ôl, trwy:

- siarad dros bobl sydd wedi eu dadleoli'n fewnol yn y CU
- sicrhau y bydd y DU, a gwladwriaethau eraill, yn cadw a gwarchod hawliau pob person sy'n gorfod symud
- ymuno a galwadau am broses i ddilyn yr un bresennol, i gryfhau'r diogelwch ar gyfer pobl sydd wedi eu dadleoli'n fewnol.

Heb ymdrech ryngwladol, bydd ein hesgeulustod o'n cyfrifoldeb tuag at ein chwiorydd a'n brodyr o amgylch y byd yn parhau.

Yn gywir,

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw	Enw/rhif tŷ	Cod post	Cyfeiriad e-bost*

*Cwblhewch os gwelwch yn dda os ydych yn hapus i dderbyn e-byst ynghylch ein hymgyrchoedd. Ni wnawn byth rannu eich manylion gydag unrhyw gorff arall ar gyfer pwrpas marchnata. Os ydych eisoes yn derbyn gwybodaeth gan Cymorth Cristnogol ac am i hyn stopio neu am ei newid, yna ffoniwch ni ar 020 7523 2493 neu e-bostiwch ni ar info@christian-aid.org gan gynnwys eich enw a chyfeiriad yn llawn.

cymorth.
cristnogol

Os ydych wedi rhannu'r daflen ddeiseb hon, os gwelwch yn dda rhwch enw eich eglwys yma, os ydych yn perthyn i un:

Anfonwch y daflen hon i: Cymorth
Cristnogol, Llys Porth yr Eglwys,
3 Ffordd yr Eglwys, Yr Eglwys
Newydd, Caerdydd. CF14 2DX.

**cymorth
cristnogol**

Ysgrifennwch neges fer neu weddi, neu darluniwch lun o bobl sydd wedi eu gorfodi o'u cartref.

**cymorth
cristnogol**

Ysgrifennwch neges fer neu weddi, neu darluniwch lun o bobl sydd wedi eu gorfodi o'u cartref.

**cymorth
cristnogol**

Ysgrifennwch neges fer neu weddi, neu darluniwch lun o bobl sydd wedi eu gorfodi o'u cartref.